# Polisi ar gyfer Darparu Deietau Arbennig

Adran Addysg a Phlant

Diweddarwyd Hydref 2022



carmarthenshire.gov.wales/education

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Contents

Cyflwyniad ……………………….………………………….. 3

Rolau a chyfrifoldebau allweddol ………………………….. 3-5

Prydau Ysgol am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd ………..5

Cyfraith Natasha ………………………………………………6

Rheoli Deietau Arbennig mewn Ysgolion Uwchradd …….. ...6

Alergeddau Difrifol ……………………….………………….. 6

Bwydlenni yn cydymffurfio ………………………………….. 7

Diogelu Data ……………………………………….……….. 7

Manylion Cyswllt ..…………………………………………….. 7

Atodiad 1: Crynodeb o reoli gofynion deietegol arbennig mewn Ysgolion Cynradd ……………………………….……….. 8

Atodiad 2: Crynodeb o reoli gofynion deietegol arbennig mewn Ysgolion Uwchradd ………………………………………….. 9

# Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo i fodloni anghenion pob disgybl i gynnwys disgyblion y mae angen deietau arbennig arnynt am gyflyrau meddygol neu resymau crefyddol neu ddiwylliannol yn unol â deddfwriaeth a Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014. Diben y polisi hwn yw amlinellu rolau a chyfrifoldeb staff yr ysgol, rhieni, tîm rheoli arlwyo yr ysgol, a staff i sicrhau bod unrhyw ddisgyblion â gofynion deietegol arbennig yn cael eu diogelu er mwyn sicrhau dull cyson fel y gellir diwallu anghenion plant yn ddiogel.

Paratoir pob pryd arbennig gyda gofal a sylw priodol gan staff hyfforddedig; Mae bob amser risg y gellir trosglwyddo olion alergenau i eitemau o'n bwydlen wrth eu prosesu, eu storio neu eu paratoi yn ein ceginau. Am y rhesymau hyn ni allwn warantu bod unrhyw eitem ar unrhyw un o'n bwydlenni yn rhydd rhag olion alergenau.

Bydd y gwaith o ddarparu deietau arbennig yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac os bydd angen, bydd mesurau cywiro'n cael eu rhoi ar waith.

Efallai y bydd ysgolion hefyd am fabwysiadu'r egwyddorion allweddol yn y polisi hwn mewn perthynas â gweithgareddau'r cwricwlwm a/neu lle darperir bwyd i ddisgyblion y tu allan i faes gorchwyl Tîm Arlwyo yr Ysgol e.e. clybiau brecwast preifat, clybiau ar ôl ysgol preifat ac ati.

**<u>Deietau Arbennig ar gyfer Cyflyrau Meddygol</u>**
Gall fod angen deietau arbennig ar gyfer amrywiaeth eang o gyflyrau meddygol gan gynnwys alergeddau bwyd, anoddefiad bwyd, diabetes, clefyd seliag, a llawer o rai eraill. Mae deiet a ragnodir yn feddygol yn un sydd wedi'i ragnodi/diagnosio gan weithiwr meddygol proffesiynol e.e. meddyg ymgynghorol, Meddyg/Meddyg Teulu, neu ddeietegydd cofrestredig.

**<u>Deietau Crefyddol, Diwylliannol a Llysieuol/Fegan</u>**
Byddwn hefyd yn darparu ar gyfer disgyblion sy'n dilyn deietau arbennig am resymau crefyddol neu ddiwylliannol neu oherwydd eu bod yn llysieuwr neu'n fegan.

# Rolau a chyfrifoldebau allweddol

Mae'r broses o ddarparu deietau arbennig yn gofyn am ddull gweithredu ar y cyd a chyfathrebu rhwng pob parti; gweler gwybodaeth ychwanegol yn Atodiad 1 a 2.

**Mae gan yr Ysgol gyfrifoldeb cyffredinol dros iechyd a llesiant plant ac mae'n chwarae rhan hanfodol o ran cydlynu gwybodaeth rhwng pob parti:**

- Rhoi ffurflen deiet arbennig i bob rhiant fel rhan o broses gofrestru'r ysgol gan gynnwys cadw cofnodion cywir a sicrhau bod Staff Arlwyo yr Ysgol yn cael gwybodaeth berthnasol cyn gynted â phosibl
- Cysylltu'n rheolaidd â rhieni i benderfynu ar unrhyw newidiadau i ofynion deietegol gan sicrhau bod unrhyw newidiadau i ddeiet a ragnodir yn feddygol yn cael eu hategu gan gadarnhad ysgrifenedig o'r newid(iadau) gan ymarferydd meddygol neu ddeietegydd cofrestredig. Rhoi gwybod i Staff Arlwyo'r Ysgol ar

unwaith am unrhyw newidiadau i ofynion deietegol disgybl pan dderbynnir diweddariadau gan Riant/Gwarcheidwad
- Diweddaru Canolfan Athrawon / SIMS gyda manylion am ofynion deietegol unigolyn
- Hwyluso cyfarfod gyda'r rhiant/gwarcheidwad a'r Cogydd â Gofal / Cogydd Oruchwylydd os oes angen
- Darparu gwybodaeth i unrhyw aelodau eraill o staff a fydd yn cefnogi'r disgyblion (cefnogi gweithgareddau yn ymwneud â'r cwricwlwm, gweithgareddau clybiau ar ôl ysgol ac ati)
- Rhoi gwybod i Staff Arlwyo yr Ysgol am deithiau ysgol sy'n cynnwys disgyblion sydd fel arfer yn derbyn darpariaeth deiet arbennig cyn y daith

Ysgolion Cynradd:

- Helpu i nodi pa ddisgyblion sydd angen pryd arbennig yn ystod sesiwn gofrestru'r bore a rhoi gwybod i Staff Arlwyo'r Ysgol cyn 09:30 bob dydd i ganiatáu digon o amser ar gyfer paratoi'r holl brydau gofynnol
- Darparu lefel addas o oruchwyliaeth i ddisgyblion yn ystod gwasanaeth amser cinio er mwyn sicrhau llesiant disgyblion gan sicrhau bod disgyblion a nodwyd yn cael y pryd cywir
- Rheoli gofynion disgyblion yn unol â'r cynllun Llaeth Ysgol am Ddim fel y gellir sicrhau bod cynhyrchion eraill ar gael i ddisgyblion

**Mae Rhiant/Gwarcheidwad y disgybl yn gyfrifol am roi gwybod i'r Ysgol am ofynion ei blentyn am ddeiet arbennig, cyn dechrau yn yr ysgol neu yn ystod y flwyddyn academaidd:**

- Cael ffurflen deiet arbennig gan yr ysgol cyn gynted â phosibl; wrth lenwi'r ffurflen, darparwch y dystiolaeth feddygol ategol sy'n ofynnol.
  Gellir darparu hwn fel llythyr gan ymgynghorydd meddygol, Meddyg/Meddyg Teulu, neu ddeietegydd os ydych yn ystyried bod gan eich plentyn gyflwr meddygol sy'n effeithio ar ofynion bwyta. Dychwelyd gwybodaeth i'r ysgol yn brydlon
- Os oes angen, cyfarfod â staff yr Ysgol a'r Staff Arlwyo i drafod bwydlen addas
- Ar ôl derbyn yr holl wybodaeth berthnasol, gwneir trefniadau i lunio bwydlen addas ar gyfer eich plentyn, a darperir copi ohono i chi a'n staff arlwyo mewn ysgolion. I ddiogelu eich plentyn, rhowch becyn cinio i'ch plentyn hyd nes y gellir cadarnhau dyddiad dechrau'r fwydlen.
- Diweddaru'r ysgol os bydd gofynion deietegol arbennig eich plentyn yn newid, gan ddarparu cadarnhad ysgrifenedig am y newidiadau gan ymarferydd meddygol cofrestredig, deietegydd neu weithiwr proffesiynol priodol.

**Bydd Tîm Rheoli'r Gwasanaeth Arlwyo yn gyfrifol am y canlynol:**

- Darparu bwydlenni wedi'u cynllunio yn unol â gofynion deietegol i gynnwys anoddefiad glwten, anoddefiad lactos, llysieuol ac ati gan ofyn am gyngor arbenigol gan ddeietegwyr os oes angen

- Casglu a darparu gwybodaeth am alergenau sy'n ymwneud â ryseitiau gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bob parti
- Darparu data gwybodaeth am faeth os oes angen
- Cefnogi Staff Arlwyo Gweithredol i fynd i gyfarfodydd gyda staff yr Ysgol a rhieni/gwarcheidwaid i drafod bwydlenni addas
- Monitro arferion gwaith a fabwysiadwyd gan staff arlwyo yr ysgol i sicrhau bod y risg o groeshalogi yn cael ei lleihau gan gyflawni safonau hylendid bwyd da a sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol
- Cymeradwyo manylebau nwyddau gyda chyflenwyr cyn i gynhyrchion amgen gael eu cyflenwi i geginau
- Monitro'r ddarpariaeth o ddeietau arbennig, cyfathrebu am alergenau a chydymffurfio â'r polisi hwn

**Mae gan staff arlwyo mewn ysgolion rôl bwysig o ran darparu deietau arbennig o ddydd i ddydd. Er mwyn i staff allu darparu ar gyfer gofynion deietegol arbennig yn effeithiol ac yn ddiogel, bydd ein Cogydd â Gofal / Cogydd Oruchwylydd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ysgol a'r Rhiant/Gwarcheidwad i ddarparu pryd o fwyd cytbwys o ran maeth sy'n bodloni gofynion deietegol arbennig y disgybl.**

Bydd staff arlwyo mewn ysgolion yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod prydau bwyd yn cael eu paratoi a'u darparu yn unol â gofynion deietegol pob disgybl
- Rhoi gwybod i gwsmeriaid am y wybodaeth am alergenau yn ôl y gofyn
- Cwrdd â Rhiant/Gwarcheidwad a'r Ysgol os oes angen i drafod bwydlen addas
- Ymgymryd â'r holl hyfforddiant angenrheidiol sy'n ofynnol a sicrhau bod cyfarwyddiadau gwaith penodol yn cael eu dilyn wrth baratoi prydau bwyd i leihau'r risg o groeshalogi
- Gwirio bod cynhyrchion cywir wedi'u derbyn; cynnal archwiliadau trylwyr o'r holl labeli cynhwysion cyn cynhyrchu prydau bwyd gan gynnwys gwirio cynhwysion ar gyfer unrhyw newid o ran cynhwysion a dderbynnir i benderfynu a ydynt yn bodloni gofynion deietegol
- Cadw cofnodion cywir gyda chymorth yr ysgol i sicrhau bod gofynion deietegol arbennig yn cael eu cynnal/diweddaru, os bydd angen i'r wybodaeth hon fod ar gael i staff wrth gefn rhag ofn y bydd staff yn absennol
- Cyfathrebu â staff goruchwylio amser cinio wrth weini'r prydau bwyd ar gyfer deietau arbennig gan gynnwys defnyddio llestri cod lliw ar draws pob ysgol
- Wrth gludo prydau bwyd i ysgol arall, sicrhau bod enw'r plentyn/deiet arbennig wedi'i nodi ar y cynwysyddion bwyd perthnasol

# Prydau Ysgol am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd

Gyda Phrydau Ysgol am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd (UPFSM) yn cael eu gweithredu ar draws pob grŵp blwyddyn yn y ddwy flynedd nesaf, mae'n anochel y bydd gofynion deietegol arbennig yn cynyddu. Gofynnir i rieni lenwi ffurflen gofrestru cyn i UPFSM gael ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn ychwanegol, fydd yn nodi gofynion deietegol disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n dymuno manteisio ar y cynnig, nad ydynt efallai'n derbyn pryd ysgol ar hyn o bryd.

# Cyfraith Natasha

O 1 Hydref 2021, newidiodd y gofynion deddfwriaethol ar gyfer labelu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS). Mae'r Tîm Rheoli Arlwyo Ysgolion wedi cyflwyno mesurau i sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y Gwasanaeth Arlwyo Ysgolion. Bydd ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ofynion ar gyfer pecynnau bwyd fel darpariaeth pryd gwahanol, gan gynnwys ar deithiau ysgol, yn cael eu harchebu ymlaen llaw gyda Staff Gweithredol Arlwyo Ysgolion cyn iddynt gael eu cyflenwi.

# Rheoli Deietau Arbennig mewn Ysgolion Uwchradd

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod darparu bwyd mewn ysgolion uwchradd yn wahanol i'r hyn y bydd eich plentyn wedi arfer ag ef yn yr Ysgol Gynradd:

- Mae ein Hysgolion Uwchradd yn cynnig gwasanaeth caffeteria sy'n cynnig amrywiaeth eang o opsiynau. Cyn prynu unrhyw fwyd, bydd angen i'ch plentyn gofrestru â'n system tiliau, bydd hyn yn golygu cael caniatâd rhiant / gwarcheidwad drwy lenwi ffurflen sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am alergenau a gofynion deietegol arbennig.
- Cyfrifoldeb y Disgyblion yw gofyn i staff amser cinio pa opsiynau sydd ar gael iddynt, cyn prynu unrhyw eitemau. Rydym yn sylweddoli efallai na fydd rhai disgyblion yn hyderus neu byddant yn teimlo'n nerfus am fynd at staff, felly os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'n prif swyddfa fel y gallwn drafod sut y gallwn gefnogi eich plentyn ymhellach.

O 1 Hydref 2021, bydd y gofynion ar gyfer labelu bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn newid yng Nghymru. Bydd y labelu newydd hyn yn helpu i ddiogelu ein disgyblion drwy ddarparu gwybodaeth am alergenau ar y deunydd pecynnu megis baguettes, brechdanau ac ati.

# Alergeddau Difrifol

Dylai'r Ysgol drafod gofynion ar gyfer alergeddau difrifol gyda staff arlwyo mewn ysgolion fel y gellir mabwysiadu dull ysgol gyfan. Os oes angen tynnu alergen neu gynhwysyn o amgylchedd yr ysgol, mae'n rhaid trafod hyn yn fanwl oherwydd efallai na fydd yn bosibl cyflawni hyn heb effeithio ar yr amrywiaeth o brydau sydd ar gael ar fwydlen yr ysgol.

Cyfrifoldeb yr Ysgol yw sicrhau bod staff a nodwyd (gan gynnwys staff brecwast) yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio EpiPen a chysylltu â rhieni pan fydd angen darparu pennau newydd pan fyddant yn dyddio.

## Bwydlenni yn Cydymffurfio

Mae'n rhaid i'n bwydlenni gydymffurfio â Deddfwriaeth Bwyta'n Iach felly yn anffodus ni allwn ddarparu ar gyfer ceisiadau gan rieni/gwarcheidwaid ynghylch anhoffter at fwydydd penodol.

O ganlyniad i gymhlethdodau o ran darparu ar gyfer deietau wedi'u rhagnodi'n feddygol, efallai y bydd angen i ni gynnig bwydlen ychydig yn wahanol i'n prydau safonol. Nid ein bwriad yw tynnu sylw penodol at ddisgyblion na gwahaniaethu, ein nod yw sicrhau ein bod yn darparu pryd diogel gan ddefnyddio'r cynhyrchion sydd ar gael i ni.

## Diogelu Data

I reoli darpariaeth deietau arbennig yn ddiogel, bydd yn ofynnol i staff Arlwyo'r Ysgol a'r Ysgol gadw gwybodaeth yn y ffeil am wybodaeth feddygol gan gynnwys ffotograff os rhoddir caniatâd gan y rhiant. Cynhelir yr holl ddata yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

## Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod ofynion penodol eich plentyn yn fanylach, mae croeso ichi gysylltu â'n prif swyddfa:

E-bost: prydauysgol@sirgar.gov.uk
Ffôn: 01267 246537

# Atodiad 1

## Crynodeb o reoli gofynion deietegol arbennig mewn Ysgolion Cynradd



# Atodiad 2

**Crynodeb o reoli gofynion deietegol arbennig mewn Ysgolion Uwchradd**

